**EITEM AR YR AGENDA: 8**

**PWYLLGOR ARCHWILIO**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**2 Mehefin 2014**

**DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL**

**Adroddiad gan Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

1 Dod â Datganiad Llywodraethu Blynyddol yr Awdurdod er mwyn i Aelodau'r Pwyllgor Archwiloi roi sylwadau arno, cyn ei gyflwyno i'r Awdurdod.

## Y Cefndir

2 O 2010/11 ymlaen, bu'n ofynnol i bob Awdurdod Llywodraeth Leol lunio Datganiad Llywodraethu Blynyddol i'w gyhoeddi fel rhan o'r Cyfrifon Statudol. Mae hyn yn disodli'r Datganiad Rheolaeth Fewnol yn y Datganiad o Gyfrifon.

## Gwybodaeth

3 Diben y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yw adrodd yn gyhoeddus bob blwyddyn ynghylch y graddau y mae Awdurdod yn cydymffurfio â'i God Llywodraethu Corfforaethol ei hun. Mae'n cynnwys esboniad ynglŷn â'r modd y mae'r Awdurdod wedi monitro effeithiolrwydd ei drefniadau llywodraethu yn y flwyddyn honno, ynghyd ag unrhyw newidiadau sydd yn yr arfaeth yn y cyfnod sydd i ddod.

4 Caiff Datganiad Llywodraethu Blynyddol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ei lunio gan y Rheolwr Cyllid dan gyfarwyddyd y Dirprwy Brif Swyddog Tân a’r Clerc. Eleni, roedd hefyd yn cymryd i ystyriaeth yr argymhellion a gafwyd wedi i archwiliad mewnol gael ei gynnal ar drefniadau llywodraethu'r Awdurdod.

5 Gwiriodd y Rheolwr Cyllid gydymffurfiaeth â Chod Llywodraethu Corfforaethol yr Awdurdod, a gymeradwywyd yn 2011, a rhoddir crynodeb o’r canfyddiadau yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol sydd ynghlwm.

**Argymhelliad**

6 Gofynnir i’r Aelodau gymeradwyo cynnwys Datganiad Llywodraethu blynyddol 2013/14.